COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 208

**Amseru: Arferol**

**Teitl: Cyfraniad tuag at Ymyriadau Troseddwyr Trais Domestig**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Mae'r Comisiynydd yn bartner allweddol Bwrdd Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r Bwrdd wedi sefydlu nifer o gynlluniau ac ymyriadau peilot ar gyfer troseddwyr cam-drin domestig. Mae rhai'n enghreifftiau arfer gorau o gyflenwi mewn ardaloedd gwledig megis Dyfed-Powys.

Mae'r Bwrdd yn edrych ar sefydlu darpariaeth cynaliadwy o'r gwasanaethau hyn yn ystod 2021/22 ac wedi cyhoeddi cynnig i bob partner strategol allweddol am gyfraniad o £19,850.

Mae'r cynnig wedi'i ystyried ac mae'n sgorio'n uchel ar fatrics ariannu CHTh ac yn gydnaws â blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Hefyd, mae'n faes allweddol ar gyfer datblygu gwasanaethau a gomisiynir ar y cyd rhwng CHTh a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn y dyfodol ac mae'n gydnaws ag argymhellion AHEM.

Gan hynny, cynigit bod CHTh yn cymeradwyo cyfraniad o £19,850 ar gyfer y cyfnod 2021/22 i ariannu'r ymyriadau troseddwyr rhanbarthol. Cynhelir trafodaethau mewn perthynas â chynaliadwyedd y cyflenwi hwn yn y dyfodol mewn cyfarfodydd Bwrdd yn 2021.

COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

**Argymhelliad:**
Bod CHTh yn cymeradwyo cyfraniad o £19,850 ar gyfer ymyriadau troseddwyr Trais Domestig yn 2021/22.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:**

**Dyddiad: 24/2/2021**

COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER